

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

**Adroddiad Gwrthwynebiadau ar ôl Ymgynghori-
Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy**

Cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte

Woodlands Road,

Llangollen,

LL20 7SU



Cynnwys

Hysbysiad Statudol	3
Derbyniadau.....	3
Manylion yr Ysgolion Amgen Agosaf	3
Manylion Unrhyw Fesurau Eraill	4
Trefniadau Trafnidiaeth O'r Cartref I'r Ysgol	4
Gweithredu.....	4
Cynnig i gau YGG Froncysyllte	4
Cyfnod Gwrthwynebu	5
Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol	6
Rhestr yr Ymgynghoreion	7
Gwrthwynebiadau	8
Ymateb Awdurdodau Lleol i'r Gwrthwynebiadau.....	8
Casgliad.....	8
Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol	9

Hysbysiad Statudol

Cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte

Woodlands Road, Llangollen, LL20 7SU

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig:

Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte ('YGG Froncysyllte') o 31 Awst 2026, neu yn gynt os yw nifer y disgyblion yn gostwng i sero.

Lleoliad: Woodlands Road, Llangollen, LL20 7SU

Mae Ysgol Gynradd Froncysyllte yn ysgol gynradd prif ffrwd cyfrwng Saesneg, rhyw gymysg ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol yw 12 disgybl. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ('y Cyngor').

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd, a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor:

[Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#)

Derbyniadau

O 1 Medi 2026, bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Froncysyllte ar hyn o bryd yn gallu mynegi ysgol amgen ddewis. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegir o'r fath yn ddarostyngedig i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran 86(3). Yn y dyfodol, bydd unrhyw ddisgyblion newydd sy'n byw yn ardal Froncysyllte yn gallu gwneud cais am le yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor.

Manylion yr Ysgolion Amgen Agosaf

Yr ysgolion amgen agosaf ar gyfer disgyblion sy'n mynychu YGG Froncysyllte ar hyn o bryd o fewn pellter cerdded o 2 filltir fyddai fel a ganlyn:

Ysgol	Math o Ysgol	Categori Iaith
Ysgol Gynradd Gymunedol y Garth	Ysgol Gynradd Gymunedol	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Acrefair	Ysgol Gynradd Gymunedol	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Min y Ddôl	Ysgol Gynradd Gymunedol	Cyfrwng Cymraeg
Ysgol Cefn Mawr	Ysgol Gynradd Gymunedol	Cyfrwng Saesneg
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Pentre	Ysgol Wirfoddol a Reolir	Cyfrwng Saesneg

Manylion Unrhyw Fesurau Eraill

Rhagwelir y byddai nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i unrhyw un o'r ysgolion amgen agosaf yn fach, ac felly ni fyddai'r effaith ar yr ysgolion hyn yn sylweddol ac mae digon o leoedd mewn ysgolion yn yr ardal gyfagos. O ystyried hyn, ni chynigir cymryd unrhyw fesurau i gynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael oherwydd y bwriad i gau YGG Froncysyllte.

Trefniadau Trafnidiaeth O'r Cartref I'r Ysgol

Bydd trafniadaeth i ddisgyblion yn cael ei drin yn unol â Pholisi Trafnidiaeth Ysgol y Cyngor. Mae manylion Polisi Derbyn a Pholisi Trafnidiaeth Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan [Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#)

Gweithredu

Bydd y cynnig yn cael ei weithredu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cynnig i gau YGG Froncysyllte

Mae'r ffactorau sydd wedi'u hystyried gan y Cyngor wrth fwrw ymlaen â'r cynnig hwn yn cynnwys:

- Sicrhau cynaliadwyedd ysgolion yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy yn y dyfodol.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai wedi'u paratoi'n well i fodloni'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion eraill a fyddai'n darparu amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgol gyda mwy o gyd-ddisgyblion, fel y gellir addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau o grŵp oedran tebyg gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cymorth cyfoedion.
- Galluogi disgyblion i fynychu ysgolion ag adeiladau o ansawdd gwell.
- Sicrhau effeithlonrwydd cynllunio a rheoli adnoddau.
- Lleihau nifer cyffredinol lleoedd gwag y Cyngor yn ysgolion cynradd Wrecsam.

- Mynd i'r afael â'r mater o nifer disgyblion isel ar y gofrestr a'r nifer a ragamcenir.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i fonitro'r galw am leoedd mewn ysgolion a sicrhau hyfywedd yr ystâd ysgolion.
- Gwireddu arbediad ariannol a gronnir i gyllideb Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy.

Cyfnod Gwrthwynebu

Gall unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at **10 Mawrth 2026**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at:

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Adeiladau'r Goron
31 Stryt Caer
Wreccsam
LL13 8BG

Neu drwy e-bost i: DeeValleyConsultation@wrexham.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed o fewn y cyfnod gwrthwynebu (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig), ynghyd â sylwadau'r Cyngor arno, o fewn y cyfnod amser penodedig a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Dyddiedig: 6 Chwefror 2026

Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Ar 6 Chwefror 2026, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau ysgol gynradd gymunedol Froncysyllte yn dilyn ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 23 Medi 2025 a 7 Tachwedd 2025.

Ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol, dechreuwyd Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol o 28 diwrnod a ddaeth i ben ar 10 Mawrth 2026.

Mae'r Hysbysiad Statudol wedi'i gyhoeddi yn unol ag Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a rhoi arweiniad i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).

Anfonwyd copïau o'r Hysbysiad Statudol at yr holl ymgynghoreion drwy gopïau caled dros e-bost ac roedd hefyd ar gael trwy ddolen i wefan.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol hefyd ar dudalen we Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

[Ymgynghori ar Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Dyfrdwy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam](#)

Isod mae'r rhestr o ymgynghoreion a gafodd gopi o'r Hysbysiad Statudol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Rhestr yr Ymgynghoreion

Gofynnwyd i amrywiaeth o unigolion am eu barn ar y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru a'r Esgobaethau Catholig
- Awdurdodau Lleol eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer
- Y Corff Llywodraethu yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Holl Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion ffydd ac ysgolion arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Aelodau o staff Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Cyngor Cymuned Llangollen Wledig
- Cyngor Cymuned Tref Y Waun
- Fforwm y Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llŷr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS
- Aelodau Seneddol Lleol: Andrew Ranger AS, Gill German AS, Becky Gittins AS, Steve Witherden AS
- Estyn
- Undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ffederasiwn Dyffryn Dyfrdwy
- Adran Trafnidiaeth Ysgol Cyngor Wrecsam
- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Darparwyr Meithrinffeydd Annibynnol, Grwpiau Chwarae, Gwarchodwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg Lleol
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

Gwrthwynebiadau

Rhwng 6 Chwefror 2026 a 10 Mawrth 2026, derbyniwyd un ymateb mewn perthynas â'r cynnig:

"Rwy'n drist iawn o glywed am yr ymgynghoriad statudol i gau Ysgol Froncysyllte. Mae fy nheulu i gyd wedi mynychu'r ysgol, ac wedi cael addysg academaidd a chymdeithasol wych yno. Ni allwn fod wedi dewis ysgol well iddyn nhw, ac roeddwn i'n falch ei bod yn ein pentref bach ni. Rwyf wedi cefnogi'r ysgol dros y blynyddoedd mewn gwahanol rolau. Yn anffodus, dros y blynyddoedd diwethaf bu problemau gyda rhieni yn tynnu eu plant o'r ysgol, sydd wedi arwain at eraill yn gwneud yr un peth. Mae'n gymaint o drueni gan nad yw'r gystadleuaeth o reidrwydd yn gallu cynnig gwell addysg, ond dyna eu dewis. Mae'r diffyg tai rhent a chyngor hefyd wedi golygu bod teuluoedd wedi symud i ffwrdd, gan fynd â'u plant gyda nhw. Rwy'n gwerthfawrogi bod y niferoedd yn siarad drostynt eu hunain ac nad yw'r ysgol yn gynaliadwy ar hyn o bryd, ond tybed a ellid defnyddio'r ysgol ar gyfer ADY neu addysg hyblyg, gan fanteisio ar y tiroedd a'r coetiroedd lleol. Rwy'n drist iawn am ein hysgol bentref a'i hanes hir"

Ymateb Awdurdodau Lleol i'r Gwrthwynebiadau

Mewn ymateb, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn deall yn llawn y pryder a godwyd. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y cyfraniad sylweddol a wnaed gan deuluoedd, cyn-ddisgyblion, llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob ysgol yn Wrecsam yn gynaliadwy, yn hyfyw ac yn gallu darparu'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gyfanrwydd. Mae'r niferoedd disgyblion presennol ac a ragamcenir yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte yn parhau i fod yn sylweddol is na'r lefel sy'n ofynnol i gynnal hyfywedd addysgol ac ariannol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn wynebu heriau parhaus wrth ddarparu grwpiau cyfoedion o faint priodol, cynnal strwythurau staffio, a chynnal cynnig cwricwlwm eang a chyfoethog.

Casgliad

Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod lleoedd addas a digonol ar gael mewn ysgolion, wrth ddarparu gwasanaethau addysg effeithlon ac effeithiol i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â phroblemau digonolrwydd lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys galw isel am leoedd i ddisgyblion (y niferoedd ar y gofrestr ar hyn o bryd a'r nifer a ragamcenir). Pe bai'r status quo yn cael ei gynnal, mae'n debygol na fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu mynd i'r afael â'r broblem o niferoedd isel o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte na chydymffurfio â'i ddyletswydd i fonitro'r galw am leoedd ysgol a sicrhau hyfywedd yr ystâd ysgolion. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod o'r farn y dylai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte fwrw ymlaen i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ystâd ysgolion a sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n effeithiol er budd yr holl ddysgwyr. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi disgyblion, teuluoedd a staff trwy gydol y cyfnod pontio hwn a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r gymuned i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith.

Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar 12 Mai 2026 i drafod yr Adroddiad Gwrthwynebiadau ar gyfer y cynnig i fwrw ymlaen i gau Ysgol Gynradd Gymunedol Froncysyllte, Woodlands Road, Llangollen, LL20 7SU.

Gofynnir i'r Bwrdd Gweithredol am gymeradwyaeth i barhau â'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd. Dyma fydd y penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r cynnig.

Bydd hysbysiad penderfyniad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Wrecsam a bydd yr holl ymgynghoreion yn cael eu hysbysu.